

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU
Dogfen Ymgynghori
– Gwybodaeth am yr Ysgolion

Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y Fro trwy:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021; a
- chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille ac mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen.

Cysylltwch â ni ar 01446 700111 neu 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk i drefnu hyn a/neu i gyflwyno unrhyw ymholiadau.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cefndir	4
Diben y ddogfen hon.....	4
Aseiad o adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion	4
Aseiad o berfformiad addysgol.....	5
Ysgol Gynradd Gladstone	8
Gwybodaeth gefndir.....	9
Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol	9
Perfformiad addysgol.....	9
Y Daith	18
Gwybodaeth gefndir.....	19
Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol	19
Perfformiad addysgol.....	20
Ysgol Y Deri.....	25
Gwybodaeth gefndir.....	26
Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol	26
Perfformiad addysgol.....	26

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrion, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sydd dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r cynnig yn un i drawsnewid addysg arbenigol trwy;

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri (YYD) o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles (CDaLI) newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri (YYD) o fis Medi 2021; a
- chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles (CDaLI) ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli a.y.b.) (Cymru) 2014.

Diben y ddogfen hon

Darparu trosolwg o'r ysgolion yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn, gan gynnwys:

- gwybodaeth gefndir am yr ysgolion;
- yr asesiadau diweddaraf o adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion; a hefyd
- yr asesiadau diweddaraf o berfformiad addysgol yr ysgolion.

Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu fesul ysgol ac fe'i defnyddiwyd i oleuo'r adran "Goblygiadau'r cynnig" yn y ddogfen ymgynghori (o dudalen 13).

Asesiad o adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg weledigaeth i ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro i gefnogi eu dysgu. Un o'r dulliau a ddefnyddir i farnu adeiladau a chyfleusterau ysgolion yw arolwg o gyflwr adeiladau. Mae arolwg o gyflwr adeiladau'n cynnwys asesiad gweledol o bob rhan ohonynt sy'n agored i adnabod diffygion sylweddol ac eitemau sydd wedi mynd â'u pen iddynt.

Mae'r Cyngor yn arolygu ac yn categoreiddio adeiladau ei ysgolion ar raddfa 4 pwynt o dda i wael.

Tabl 1 – System Graddio Cyflwr	
Gradd	Disgrifiad
Da	Yn perfformio fel a fwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon.
Boddhaol	Yn perfformio fel a fwriadwyd ond mân ddirywiad i'w weld.
Gwael	Diffygion mawr i'w gweld a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd.
Bad	Wedi cyrraedd diwedd ei oes a/neu risg ddifrifol ei fod ar fin methu.

Mae'r Cyngor hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni gan nodi argymhellion o'r arolwg diweddaraf o gyflwr adeiladau a rhoi cyfrif am waith adeiladu a wnaed wedi hynny.

Asesiad o berfformiad addysgol

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod y dysgu a'r addysgu o ansawdd da, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Caiff perfformiad ei fonitro gan ddefnyddio dwy system; adroddiad Estyn o arolygiadau a system Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad i fonitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi'r broses gwella ysgolion;

- Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Un o gyrff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei chyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru (CACCCDC) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygiad yw adnabod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

Adroddiad Estyn

Ym mis Medi 2017 cyflwynodd Estyn Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd ar gyfer yr holl ysgolion ledled Cymru. Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol sy'n cynnwys pedair barn:

Tabl 2 – Meini Prawf Arolygu Estyn		
Barn	Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu cyn mis Medi 2017	Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu ar ôl mis Medi 2017
Rhagorol	<ul style="list-style-type: none"> Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector 	<ul style="list-style-type: none"> Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	<ul style="list-style-type: none"> Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol	<ul style="list-style-type: none"> Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella 	<ul style="list-style-type: none"> Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfodddhaol	<ul style="list-style-type: none"> Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau 	<ul style="list-style-type: none"> Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categorreiddio ysgolion

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system newydd ar gyfer categorreiddio ysgolion; cafodd hon ei diwygio ym mis Medi 2017. Mae'r system categorreiddio'n ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â gallu'r ysgol i wella er mwyn pennu lefel y gefnogaeth y mae ei hangen. Wedyn mae sefydliadau megis CACCDC a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i adnabod, darparu a/neu froceru unrhyw gefnogaeth y mae ei hangen ar gyfer gwelliant pellach.

Caiff y system categorreiddio ysgolion ei disgrifio isod:

Tabl 3 – Meini Prawf Llywodraeth Cymru	
Categori	Yr hyn y mae'r categori'n ei olygu
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gadarn ac sy'n gwbl glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn perfformio'n dda ac sy'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddi eu gwella.
Oren	Ysgol y mae angen ei gwella ac y mae angen cymorth arni i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella neu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn gyflymach.
Coch	Ysgol y mae angen ei gwella fwyaf ac a fydd yn cael cefnogaeth ddwys ar unwaith.

Er mwyn pennu'r categori cefnogaeth a gaiff ei egluro yn y tabl uchod, gosodir ysgolion mewn un o'r pedwar grŵp ar gyfer gallu i ddwyn gwelliant (A-D) gydag A yn

golygu'r uchaf o ran gallu i wella. Nid yw'r system ddiwygiedig ar gyfer categorieiddio ysgolion a gyflwynwyd ym mis Medi 2017 yn defnyddio gradd safonau.

O'r 45 o ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg, mae 31 wedi'u categorieiddio'n wyrdd, 20 yn felyn, 4 yn oren, ac 1 yn goch.

O'r 8 ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg, mae 3 wedi'u categorieiddio'n wyrdd, 4 yn felyn, ac 1 yn oren.

Nid yw Unedau Cyfeirio Disgyblion yn rhan o'r broses ymgynghori statudol.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun categorieiddio, gweler canllawiau Llywodraeth Cymru i rieni ynghylch y System Genedlaethol ar gyfer Categorieiddio Ysgolion:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Ysgol Gynradd Gladstone

Gwybodaeth gefndir

Mae ysgol gynradd Gladstone wedi'i lleoli yn nhref y Barri ac fe agorodd ym 1890.

Tabl 4 – Gwybodaeth am ysgol gynradd Gladstone				
Enw'r ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Capasiti
Ysgol gynradd Gladstone	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	420

Mae cyllideb ddirprwyedig ysgol gynradd Gladstone ar gyfer 2020/21 yn £4,544 y disgybl sef y bumed uchaf allan o'r 44 o ysgolion cynradd yn y Fro. Mae'r gyllideb ddirprwyedig hon yn cynnwys cynnydd dros dro yn y gyllideb i ariannu'r ganolfan adnoddau arbenigol dros dro sydd wedi'i lleoli yn ysgol Gladstone.

Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol

Mae ysgol gynradd Gladstone wedi'i lleoli yn y Barri. Nodwyd yn arolwg y Cyngor o gyflwr adeiladau'r ysgol a gynhaliwyd yn 2019 fod eu cyflwr yn "Wael" a bod eu haddasrwydd yn "Foddhaol". £872,000 yw cost yr atgyweiriadau a nodwyd.

Rhoddir darpariaeth yn yr ysgol ar hyn o bryd i ddisgyblion yr effeithir arnynt gan drawma blaenorol a pharhaus mewn ardaloedd hunangynhaliol a adwaenir fel "The Loft and the Burrow".

Perfformiad addysgol

Adroddiad Estyn (Mawrth 2019)

Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone i'w weld yma:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Gladstone%20Primary%20School.pdf>

Crynodeb

Tabl 5 – Crynodeb o Ganlyniadau Arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone	
Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli'n adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn arwain trwy esiampol ac yn sicrhau ethos tîm cryf ymhlith staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn datblygu fel dysgwyr hapus a hyderus sy'n cymhwyso'u sgiliau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol yn eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn dangos diddordeb mewn dysgu a mwynhad o ddysgu ac maent yn ymddwyn yn dda, gan ddangos gofal am eraill a chonsyrn tuag atynt. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn herio disgyblion yn briodol ac yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n helpu llawer o ddisgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol defnyddiol. Mae'r holl staff yn rhoi gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da sy'n galluogi bron pob disgybl i gymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Argymhellion:

- A1 Sicrhau mwy o gysondeb o ran ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol
- A2 Gwella safonau a mwynhad disgyblion o ddarllen
- A3 Codi presenoldeb disgyblion
- A4 Sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau mesuradwy eglur a phenodol

Tabl 6 - Canlyniadau meysydd arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone		
Maes Arolygu Estyn	Gradd	Pwyntiau Allweddol
Safonau	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Ar y cyfan mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod ddefnyddiol o sgiliau llythrennedd a rhifedd y maent yn eu cymhwyso'n dda ar draws y cwricwlwm.

		<ul style="list-style-type: none"> • Wrth i ddisgyblion symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn siarad â hyder a brwdfrydedd cynyddol. • Mae disgyblion sy'n cael cymorth gyda'u lles yn siarad yn huawdl am faterion sy'n eu poeni ac maent yn gwrando'n ofalus a chydag empathi pan fo eraill yn siarad. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u sgiliau rhifedd yn dda yn ystod ymchwiliadau mathemategol yn ac o amgylch y dosbarth, megis wrth ddod o hyd i wahanol siapiau ar dir yr ysgol. • Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o ddyfeisiau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i gefnogi eu dysgu... Mae disgyblion hŷn yn mewnbynnu data i daenlenni, er enghraifft mewn arbrawf gwyddoniaeth am effeithiau gollwng pêl o wahanol uchderau, ac yna'n creu ac yn dehongli graff llinell o'r canlyniadau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio codio syml i greu gemau neu i symud gwrthrychau'n llwyddiannus o amgylch sgrîn.
Lles ac agweddau at ddysgu	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod sut i gadw felly mewn ystod dda o gyd-destunau. • Drwy'r ysgol i gyd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw. • Mae'r eco-bwyllgor yn hybu agweddau da tuag at gynaliadwyedd. Er enghraifft, mae ei 'eco-ysbŵyr' yn dweud bod ychydig o athrawon yn gadael offer electronig ymlaen ar ôl eu defnyddio ac mae'r eco-bwyllgor wedi cynhyrchu arwyddion aros lliw coch llachar o amgylch yr ysgol, sy'n gwneud i gydwybod ambell un bigo. • Mae disgyblion hŷn yn awyddus i ysgwyddo cyfrifoldebau ac maent yn cyflawni'r rhain yn ddiwyd, megis sicrhau bod parthau ar y buarth chwarae'n rhedeg yn llyfn. • Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn dda i'r cyfleoedd i gael dweud eu dweud am fywyd yr ysgol. • Mae ychydig o grwpiau o ddisgyblion yn dechrau gwella bywyd yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae aelodau o'r 'Cyngor Gwerthoedd' wedi gofyn i rieni ac eraill gyfrannu bwyd i gefnogi'r rhai sydd mewn angen ac mae gan yr ysgol bellach fanc bwyd, yr ysgol gyntaf yn yr ardal i wneud hyn. • Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyson yn is na'r rhai mewn ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i ystod o newidiadau diweddar, megis gwobrwyon, amseroedd dechrau cynharach yn y bore a ffonio rhieni ar unwaith, i wella prydlondeb a phresenoldeb.
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a diddorol ar gyfer ei holl ddisgyblion. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o brofiadau dysgu o ansawdd da iawn.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae staff yn meddwl yn ofalus sut y gall disgyblion gael mynediad at weithgareddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn annibynnol ac yn eu galluogi, o ganlyniad, i adael i'w dychymyg gymryd drosodd yn llwyr. • Mae staff yn ategu'r cwricwlwm yn dda gydag ystod eang o ymweliadau ac ymwelwyr sy'n cysylltu'n agos â thestunau cyfredol ac yn gwella profiadau disgyblion yn effeithiol. • Mae darpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion am y Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymru'n effeithiol. • Yn y ddau gyfnod allweddol, mae athrawon yn cynllunio'n dda i ddatblygu sgiliau llythrennedd a TGCh y disgyblion yn systematig trwy gymwysiaid diddorol mewn amrywiaeth eang o waith ar draws y cwricwlwm. Mae cynllunio ar gyfer sgiliau rhifedd yn llai cyson.
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda iawn ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol iawn i ddiwallu eu hanghenion. • Mae'r ysgol yn darparu brecwast anogaeth yn y 'Cwtch' i sicrhau bod disgyblion agored i niwed yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel cyn ymuno â'r dosbarth ac mae hyn yn ymestyn i unrhyw ddisgybl sy'n anhapus ar ddechrau'r dydd... Mae'r 'Cwtch' yn ffordd hynod effeithiol o leihau achosion o ymddygiad amhriodol neu ymosodol mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac o amgylch yr ysgol. • Ceir ystod eang o ymyriadau effeithiol i roi cymorth i wella sgiliau sylfaenol disgyblion. Mae'r rhain yn galluogi disgyblion a dargedir i wneud cynnydd da o ran gwella'u sgiliau mewn llythrennedd. Mae arweinwyr yn meithrin cysylltiadau cryf ag asiantaethau cymorth arbenigol, sy'n hynod effeithiol o ran cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, megis nam ar eu golwg. • Ceir trefniadau priodol i hybu arferion bwyta ac yfed yn iach ac i ddisgyblion gyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau corfforol. Er enghraifft, mae llawer o glybiau chwaraeon a dawnys allgyrsiol ar gael i ddisgyblion ar draws yr ysgol. • Ceir partneriaeth werth chweil gyda chartref preswyl lleol, lle mae disgyblion iau a'u rhieni'n mwynhau darllen yn rheolaidd gyda'r preswylwyr. Mae hyn o gymorth i gryfhau cysylltiadau â rhieni a'r bartneriaeth gyda'r gymuned leol.
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer yr ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar gyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer pob disgybl unigol. • Mae dogfen hunanwerthuso'r ysgol yn arfarniad gonest a chywir o'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae arweinwyr yn mynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad yn gadarn trwy gymorth â ffocws manwl ac adborth a her sydd o gymorth. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu wedi gwella ac mae pocedi o arfer hynod effeithiol. • Ceir cyfleoedd gwerth chweil i'r holl staff gyfranogi mewn cyfoeth o weithgareddau dysgu proffesiynol i wella agweddau ar les disgyblion. • Mae'r llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n dda ac yn cyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn effeithiol. • Mae'r holl staff yn rhannu angerdd yr arweinwyr i gynnal safonau uchel o ran lles y disgyblion, yn enwedig. Maent yn darparu digonedd o gyfleoedd i sicrhau cymorth effeithiol ar gyfer unrhyw ddisgyblion a allai fod dan fygythiad o dangyflawni. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol iawn i roi'r ddarpariaeth anogaeth werthfawr, 'Cwtch'.
--	--	--

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categorieiddio ysgolion

Mae'r adroddiad categorieiddio ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone i'w gael yma:

<https://mylocalschool.gov.wales/School/6732118?lang=en>

Tabl 7 – Categorïau Safonau a Gwella Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone			
Dyddiad Cyhoeddi	Gradd Safonau	Gallu i Wella	Categori ar y Cyfan
Ionawr 2020	Amherthnasol	B	Melyn
Ionawr 2019	Amherthnasol	B	Melyn
Ionawr 2018	Amherthnasol	B	Melyn
Ionawr 2017	Amherthnasol	B	Melyn

Adroddiad Categorioidio Cenedlaethol Ionawr 2020

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn yr adroddiad categorioidio cenedlaethol

Tabl 8 – Adroddiad Categorioidio Cenedlaethol ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone (2019-2020)	
Maes Arolygu	Pwyntiau Allweddol
Safonau	<ul style="list-style-type: none"> Roedd cyrhaeddiad ar ddiwedd y cyfnod sylfaen (CS) yn 2019 ym mhob un o'r tri dangosydd ar ddeiliant 5+ yn gyson â'r cyfartaleddau cenedlaethol neu ychydig yn is. Ar ddeiliant 6 uwch na'r disgwyl, cyflawnodd 60% y deiliant hwn mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPChLIADd) sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mewn datblygiad mathemategol (DM) roedd y ganran o'r disgyblion a gyflawnodd ddeiliant 6 gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (21.67% o'i gymharu â 32.27%). Pan fo asesiad athro ar gyfer disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu (CAD) yn cael eu dadgyfuno ar ddiwedd y CS nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth i ddeilliannau. Roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad bechgyn ym mhob dangosydd ar ddeiliant 5+ a 6. Roedd cynnydd disgyblion yn 2019 yn dda iawn gyda 45.6% o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud cynnydd llawer uwch na'r disgwyl, 37.3% mewn DM a 55.9% mewn DPChLIADd. Mae'r ffigyrau hyn i gyd yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfartaleddau cenedlaethol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd cyrhaeddiad ar lefel 4+ ym mhob un o'r tri dangosydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn fwy felly ym mhob un o'r tri dangosydd pan fo'r asesiadau athro ar gyfer disgyblion yn y Ganolfan

	<p>Adnoddau Arbenigol yn cael eu dadgyfuno. Ar Lefel 5+ mae'r ysgol wedi cynnal ei pherfformiad. Mae cynnydd disgyblion yn dda: gyda bron pob disgybl yn gwneud y cynnydd disgwylidig mewn Saesneg a mathemateg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn 2019, roedd y ganran o ddisgyblion cPYADd a oedd yn gwneud lefelau o gynnydd neu fwy ar draws y CS a CA2 yn cymharu'n ffafriol â disgyblion eraill a chyfartaleddau cenedlaethol. Cafodd perfformiad ar y deilliant 5+ disgwylidig ei gynnal. Fodd bynnag roedd perfformiad disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYADd yn sylweddol uwch na pherfformiad disgyblion cPYADd ar ddeilliant 6 ym mhob dangosydd a lefel 5 ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2. Roedd perfformiad y merched yn uwch na'r bechgyn ar gyfer pob dangosydd ar ddeilliant 5 a deilliant 6; fodd bynnag ym mlwyddyn 2, roedd mwy o ferched na bechgyn ac roedd nifer fwy o fechgyn ag ADY. Mae'r darlun yn debyg yng nghyfnod allweddol dau gyda pherfformiad y merched yn uwch na pherfformiad y bechgyn ar lefel 5+ ar gyfer Saesneg (yn enwedig ysgrifennu) a gwyddoniaeth ac yn sylweddol uwch ar lefel 4 ar gyfer Saesneg. • Fe wellodd ffigyrau presenoldeb yn 2018 gan symud yr ysgol i grŵp y drydedd ganradd. Mae ffigyrau dros dro ar gyfer 2019 wedi gostwng i 92.7% sy'n adlewyrchu'r ffaith bod dwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol wedi'u sefydlu yn yr ysgol.
Gallu i Wella	<ul style="list-style-type: none"> • Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn dda. Mae arweinwyr a staff wedi datblygu gweledigaeth a rennir a cheir strategaeth eglur iawn sydd wedi gwella deilliannau ar gyfer bron pob dysgwr. Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn cynllunio ac yn gweithredu newid ac yn cynnal gwelliant yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ffyrdd: mae'r newidiadau a wnaed i ddarpariaeth darllen ar draws yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn galluogi'r holl staff a phartneriaid eraill i gyfranogi'n dda yn y broses newid. • Mae'r pennaeth wedi meithrin galluoedd arwain effeithiol yn yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi ailddosbarthu cyfrifoldebau'n ddiweddar i ystyried y cyfrifoldebau arwain ychwanegol ar gyfer y ddwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol newydd sydd wedi'u sefydlu ar gyfer disgyblion ag anawsterau lechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (ICEM) ar y safle. Mae rolau, cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer rheolaeth llinell ac atebolrwydd wedi'u diffinio'n glir ac mae staff yn mynd ati'n effeithiol i gefnogi'r blaenoriaethau gwella ysgol a chyflawni dysgu proffesiynol fel rhan o raglen ddatblygu'r ysgol a'r cylch monitro a gwerthuso. • Mae proses hunanwerthuso'r ysgol yn rheolaidd a thrylwyr ac yn rhoi barn onest a chywir ynglŷn â phrosesau'r ysgol. Mae gweithgarwch cynllunio ar gyfer gwella ar bob lefel yn effeithiol o ran mynd i'r afael â'r meysydd lle mae angen gwella fwyaf. Mae gweithredu, gan gynnwys defnyddio adnoddau, wedi arwain at welliant cynaliadwy mewn deilliannau mewn dangosyddion allweddol ar gyfer bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Mae darpariaeth anogaeth yr ysgol yn gryf iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar y deilliannau ar gyfer dysgwyr agored i niwed. Mae arweinwyr yr ysgol wedi bod yn ddygn wrth gynnal lefelau adnoddau gan ddangos hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i anghenion disgyblion. Er enghraifft, cafodd y dosbarthiadau Blwyddyn 3 eu hadleoli i'r hen ystafell athrawon fel bod rhwydd hynt i'r disgyblion fynd i ardaloedd dysgu yn yr awyr agored gan ei gwneud yn bosibl i ddull y cyfnod sylfaen o gyflwyno'r cwricwlwm gael ei roi ar waith ym mhen isaf cyfnod allweddol 2. Yn dilyn cyfnod ymgynghori, cafodd y diwrnod ysgol ei fyrhau mewn ymateb i bryderon ynghylch ymddygiad amser cinio

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r gweithlu. Mae rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol yn gwneud cyfraniad cryf tuag at wella arfer a chodi safonau. Cydnabuwyd hyn mewn adroddiad achredu diweddar gan asiantaeth allanol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn dal i herio tanberfformiad yn effeithiol. • Fe wnaed cynnydd da gyda pharatoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae dosbarthiadau wedi arbrofi â'r cwricwlwm cryno a chynllunio ar gyfer y pedwar diben. Bu ffocws tymhorol ar bob un o'r MDaPh gan alluogi staff i ymgyswngtu â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig. • Mae arweinwyr a staff yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ar berfformiad, tystiolaeth am ansawdd y dysgu a'r addysgu a gwaith disgyblion i adnabod cryfderau a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. • Mae gan yr holl staff gyd-ddealltwriaeth am nodweddion addysgu rhagorol a da ac maent yn dangos y rhain yn rheolaidd fel rhan o'u harfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae gwerthusiad yr ysgol o'r addysgu o leiaf yn dda. • Mae defnydd arweinwyr a staff o ddata perfformiad ar lefel yr ysgol gyfan ac yn y ddau gyfnod allweddol yn dda ac mae'r ysgol yn defnyddio data i bennu targedau ar gyfer yr holl ddysgwyr; mae'r targedau hyn yn adlewyrchu disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad a chyrhaeddiad yn y dyfodol gan bron bob disgybl ac yn cael eu cyrraedd yn gyson. Mae prosesau i arwain, adnabod, dilysu a rhannu arfer effeithiol wedi arwain at welliant parhaus yn ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol gyfan. • Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae eu gwaith i gefnogi a herio perfformiad yr ysgol yn gryf ac mae hyn yn amlwg yng nghofnodion cyfarfodydd y corff llywodraethu yn ogystal â chyfarfodydd is-bwyllgorau. • Mae gwaith yr ysgol ym maes arfer sy'n deall trawma wedi cynyddu'n fanteisiol eleni. Nid yn unig mae gan yr ysgol bellach ddwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol ond mae wedi cynyddu ei capasiti anogaeth ei hun. Mae pum aelod o staff eisoes yn ymarferwyr sy'n deall trawma gyda staff pellach naill ai'n hyfforddi neu ar fin dechrau hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael ei ledaenu'n dda i'r staff ehangach. Mae gan yr ysgol bellach gi lles. Mae'r ysgol yn cefnogi ysgolion eraill sy'n ceisio cynyddu eu capasiti yn y maes hwn ac mae'r Pennaeth wedi rhannu ei harbenigedd mewn nifer o gynadleddau. Mae'r ysgol wedi cael ei hachredu'n ddiweddar iawn fel ysgol sy'n deall trawma ac iechyd meddwl a hi yw'r gyntaf i ennill y statws hwn yng Nghymru.
Argymhellion	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella nifer y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 6 mewn mathemateg yn y CS. • Gwella safon ysgrifennu'r bechgyn ar draws yr ysgol. • Llai'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhywiau ar draws yr ysgol gyda ffocws ar y disgyblion sydd ym Mlwyddyn 3 ar hyn o bryd. • Parhau i ddatblygu'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru 2022 ar waith.

	<ul style="list-style-type: none">• Integreiddio'r ddwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn llwyddiannus fel rhan o'r ysgol a sefydlu meini prawf eglur ar gyfer mynediad ac ymadael.
--	--

Y Daith

Gwybodaeth gefndir

Y Daith yw Uned Cyfeirio Disgyblion y Cyngor sy'n darparu addysg addas ar gyfer plant a phobl ifanc sydd, oherwydd afiechyd, gwaharddiad neu fel arall, o bosibl ddim yn cael addysg o'r fath mewn ysgol brif ffrwd. Mae hyn yn gymysgedd o addysgu ar y safle a darpariaeth allanol.

Mae Y Daith wedi'i lleoli ar draws dau safle ar hyn o bryd gyda chyfnod allweddol 3 yn cael eu haddysgu ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia a chyfnod allweddol 4 yn cael eu haddysgu yn y Bont-faen.

Tabl 9 – Gwybodaeth am Y Daith				
Enw'r Ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Capasiti
Y Daith	UCD	Saesneg	11 - 16	56

Gan mai UCD yw Y Daith nid yw'n cael ei hariannu dan y fformwla cyllid ysgolion.

Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol

Mae Y Daith wedi'i rhannu ar draws dau safle yn y Fro Orllewinol, y naill yn y Bont-faen a'r llall ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia.

Nid oes arolwg o gyflwr adeiladau Fferm Ymddiriedolaeth Amelia gan nad y Cyngor sy'n berchen ar y safle a'i fod yn cael ei brydlesu. Mae'r brydles hon yn achosi cost refeniw i'r Cyngor (£44,000). Mae cyfleusterau mewnol ac allanol sy'n addas ar gyfer disgyblion yn gyfyngedig.

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf y Cyngor o adeilad Y Daith yn y Bont-faen yn 2019. Mae arolwg y Cyngor yn nodi bod yr adeilad yn "Wael" o ran ei gyflwr a'i addasrwydd. £56,200 yw cost yr atgyweiriadau a nodwyd.

Perfformiad addysgol

Adroddiad Estyn (Mawrth 2019)

Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Y Daith i'w weld yma:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Y%20Daith.pdf>

Crynodeb

Tabl 10 – Crynodeb o Ganlyniadau Arolygu Estyn ar gyfer Y Daith	
Maes arolygu	Barn
Safonau	Digonol ac angen gwella
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Digonol ac angen gwella

Mae Y Daith yn amgylchedd gofalgwr a chefnogol lle mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol. Mae gan staff ddealltwriaeth gref am anghenion unigol disgyblion ac maent yn cynllunio'n ofalus i fynd i'r afael â'r rhain trwy'r cwricwlwm a thrwy bartneriaethau buddiol gydag asiantaethau allanol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae llawer yn gwneud cynnydd effeithiol gyda'u lles a'u hagweddau at ddysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sicr gyda'u dysgu yn ystod eu hamser yn yr UCD ac mae bron pob un yn mynd ymlaen i gyrchfannau addas ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Maent yn gwneud cynnydd arbennig o gryf mewn gwersi lle mae ansawdd gwaith cynllunio ac asesu athrawon yn uchel. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu'n diwallu anghenion disgyblion yn ddigon da ac o ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion ar draws yr UCD yn gwneud y cynnydd y mae ganddynt y gallu i'w wneud.

Mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth sefydlog ac adfyfyriol. Mae arweinwyr a staff yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar ddarparu amgylchedd gofalgwr a chynhwysol lle gall pawb lwyddo. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio deilliannau gweithgareddau sicrhau ansawdd yn ddigon da i oleuo prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Ar ben hynny, nid yw model yr UCD o ddarpariaeth ran-amser yng nghyfnod allweddol 4 yn diwallu anghenion lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon da.

Argymhellion:

- A1 Sicrhau bod darpariaeth ac adnoddau wedi'u hamserlennu yng nghyfnod allweddol 4 yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion
- A2 Gwella ansawdd yr addysgu
- A3 Sicrhau bod systemau tracio'n darparu darlun clir o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud dros amser
- A4 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Tabl 11 - Canlyniadau meysydd arolygu Estyn ar gyfer Y Daith		
Maes Arolygu Estyn	Gradd	Pwyntiau Allweddol
Safonau	Digonol ac angen gwella	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg yn ystod yr amser y maent yn ei dreulio yn yr UCD. • Mae llawer o ddisgyblion yn gwella'u sgiliau cyfathrebu'n dda yn ystod eu hamser yn yr UCD. • Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sicr o ran gwella'u sgiliau darllen. • Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwella cywirdeb a threfn eu gwaith ysgrifenedig yn briodol dros amser. • Ar draws yr UCD, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwella'u sgiliau rhifedd mewn modd addas. • Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i ymchwilio i destunau i oleuo'u gwaith prosiect. • Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae pob disgybl yn ennill o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig ar lefel 1 mewn cyrsiau sy'n cyd-fynd yn dda ar y cyfan â'u hanghenion a'u galluoedd. • Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae bron pob disgybl sy'n gadael yr UCD ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.
Lles ac agweddau at ddysgu	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r perthnasoedd gweithio cynhyrchiol rhwng staff a disgyblion yn nodweddiadol ar waith yr UCD. Mae cryfder ac ansawdd y perthnasoedd hyn yn hybu awyrgylch cadarnhaol o ymddiriedaeth a pharch sy'n arbennig o ffafriol i les a dysgu'r disgyblion. • Ar draws yr UCD, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwella'u sgiliau rhifedd mewn modd addas. • Mae llawer o ddisgyblion yn dysgu rheoli eu hymddygiad eu hunain mewn gwersi trwy ymateb yn addas i systemau gwobrwyo.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer o ddisgyblion yn gwrtais tuag at ymwelwyr ac yn eu parchu, ac mae lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 4 yn dangos yr hyder i gymryd rhan yn aeddfed mewn trafodaethau am eu profiadau yn yr UCD. • Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwd mewn fforymau megis cyfarfodydd y cyngor ysgol a'r fenter 'fy syniadau' i fynegi eu barn a'u safbwyntiau. Mae'r awgrymiadau hyn wedi arwain at newidiadau adeiladol i'r adeilad, y system wobrwyo a gweithgareddau oddi ar y safle. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD ac ychydig iawn o ddisgyblion yn bwlio a geir. • Mae disgyblion ar draws cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn ymgysylltu'n llwyddiannus â rhaglenni i gefnogi eu lles trwy ymyriadau seiliedig ar anogaeth a chymorth amlasiantaeth megis nyrs yr ysgol.
Addysgu a phrofiadau dysgu	Digonol ac angen gwella	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r UCD yn darparu cwricwlwm perthnasol ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion, sydd ar y cyfan yn cefnogi eu datblygiad academaidd yn llwyddiannus ac yn cynnwys ystod briodol o brofiadau dysgu sy'n ddigon diddorol. • Yng nghyfnod allweddol 4, yn ogystal â'r cwricwlwm craidd ar y safle, mae'r holl ddisgyblion yn dewis o gasgliad o fwy na 35 o wahanol gyrsiau galwedigaethol achrededig gyda darparwyr allanol... Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl ddilyn cymwysterau lefel uwch. Ar ben hynny, nid oes cyfle i ddisgyblion cyfnod allweddol 4 fynychu'r ddarpariaeth ar y safle'n llawn-amser. Mae hyn yn golygu nad yw anghenion lleiafrif o ddisgyblion yn cael eu diwallu bob amser, yn enwedig y rhai a fyddai'n cael budd o amgylchedd mwy anogol. • Mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf â disgyblion yn ystod eu hamser yn yr UCD. • Mae athrawon a staff cymorth dysgu'n darparu adborth calonogol ar lafar y mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iddo. Mae'r mwyafrif o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol i helpu disgyblion i wella. • Ar draws yr UCD, mae'r modd y cynllunnir ar gyfer datblygiad cynyddol sgiliau TGCh disgyblion yn danddatblygedig ac nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg disgyblion.
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r UCD yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n llwyddo i hybu hyder a hunan-fri disgyblion a'u cynnydd o ran dysgu. • Mae staff ar draws yr UCD yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion am faterion pwysig sy'n berthnasol i'w lles yn awr ac yn y dyfodol. Maent yn cydweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion am faterion cymdeithasol cyfoes, megis troseddau cyllyll, llinellau cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr UCD drefniadau effeithiol i ddisgyblion gyfrannu at brosesau penderfynu a gwella bywyd yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn cwrdd yn rheolaidd â'r cyngor ysgol ac yn rhoi ystyriaeth dda i'w barn wrth lunio cynlluniau gweithredu yn y ddau gyfnod allweddol. • Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys datblygu grŵp anogaeth yng nghyfnod allweddol 4 a chyflwyno cynlluniau llwybr unigol i wella ymwneud disgyblion â phennu eu nodau hirdymor a monitro eu cynnydd tuag atynt. • Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ymgysylltu ag ystod eang o ddarparwyr hyfforddiant allanol i gael mynediad at hyfforddiant galwedigaethol gwerthfawr, sy'n cefnogi'r mwyafrif o ddisgyblion yn dda. • Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu'n ateb y gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Digonol ac angen gwella	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r athro/athrawes â gofal, uwch arweinwyr a'r pwyllgor rheoli wedi llwyddo i sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr UCD. • Mae'r athro/athrawes â gofal a'r uwch dîm rheoli'n darparu arweinyddiaeth adfyfyriol a sefydlog. Trwy strwythur cydlynol cyfarfodydd tîm, maent yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer staff a'u disgyblion. • Trwy strwythur defnyddiol y pwyllgor rheoli o is-bwyllgorau, mae aelodau'n cael dealltwriaeth glir am gryfderau'r UCD a'r meysydd y mae angen eu gwella. • Mae staff yn yr UCD ar y cyfan yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i ddiwallu anghenion y disgyblion. Mae'r athro/athrawes â gofal a'r pwyllgor rheoli'n cydweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod cynllunio ariannol yn ystyried blaenoriaethau'r UCD. • Mae'r amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion yn gyfyngedig i fam cymharol fach ar ddau safle'r UCD, a phrin bod ardal chwarae yn yr awyr agored o gwbl. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn cael y cyfle i gael budd o fod ag amgylchedd agored y tu allan yn ystod gwersi ac amser chwarae. • Ar safle cyfnod allweddol 4, mae'r trefniant lle mae dau gohort o ddisgyblion yn defnyddio'r safle ar wahanol adegau'n golygu ei bod yn anodd i ddisgyblion gael eu haddysg ar y safle'n llawn-amser, er y gallai weddu'n well i'w hanghenion.

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion

Er nad yw Unedau Cyfeirio Disgyblion yn rhan o'r broses categoreiddio statudol, o fewn CACDC, caiff Unedau Cyfeirio Disgyblion

eu categoreddio yn yr un ffordd ag ysgolion a gynhelir. Oren yw categori Y Daith.

Ysgol Y Deri

Gwybodaeth gefndir

Mae Ysgol Y Deri wedi'i lleoli ym Mhenarth ac fe agorodd yn 2014 yn dilyn uno Ysgol Erw'r Delyn, Ysgol Maes Dyfan ac Ysgol Ashgrove. Mae'r ysgol yn rhan o Gymuned Dysgu Penarth gydag Ysgol Gyfun St Cyres, sy'n ysgol uwchradd brif ffrwd.

Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau dysgu cymedrol neu anhwylderau ar y sbectrw m awtistig. Daw'r disgyblion o Fro Morgannwg yn ogystal ag o awdurdodau lleol cyfagos Caerdydd, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

Tabl 12 – Gwybodaeth am Ysgol Y Deri				
Enw'r Ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Capasiti
Ysgol Y Deri	Arbennig	Saesneg	3 – 19	Amh.

Mae cyllideb ddirprwyedig yr ysgol arbennig ar gyfer 20/21 yn £32,921 y disgybl, sef yr uchaf ar gyfer unrhyw ysgol yn y Fro oherwydd anghenion cymhleth y disgyblion.

Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol

Mae Ysgol Y Deri (YYD) wedi'i lleoli ar safle ym Mhenarth y mae'n ei rannu ag ysgol brif ffrwd, St Cyres. Cyfeirir at y safle fel "Cymuned Ddysgu Penarth".

Nodwyd yn arolwg y Cyngor a gynhaliwyd yn 2019 fod yr adeilad yn "Dda" o ran ei gyflwr a'i addasrwydd.

Perfformiad addysgol

Adroddiad Estyn (Hydref 2016)

Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Y Deri i'w gael yma:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20y%20Deri.pdf>

Crynodeb

Tabl 13 – Crynodeb o Ganlyniadau Arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Y Deri	
Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles	Da
Profiadau dysgu	Da
Addysgu	Da
Gofal, Cymorth ac Arweiniad	Da
Yr amgylchedd dysgu	Rhagorol
Arweinyddiaeth	Rhagorol
Gwella ansawdd	Da
Gweithio mewn partneriaeth	Rhagorol
Rheoli adnoddau	Da

Ysgol arbennig breswyl a gynhelir gan awdurdod lleol Bro Morgannwg yw Ysgol Y Deri. Agorodd yr ysgol ym mis Tachwedd 2014 yn dilyn uno Ysgol Erw'r Delyn, Ysgol Maes Dyfan ac Ysgol Ashgrove. Mae'r ysgol yn rhannu safle a chyfleusterau gydag ysgol uwchradd brif ffrwd.

Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau dysgu cymedrol neu anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.

Daw'r disgyblion o Fro Morgannwg yn ogystal ag o awdurdodau lleol cyfagos Caerdydd, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Saesneg yw iaith y cartref i bron pob disgybl. Mae pymtheg ar hugain y cant o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol agor.

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn **dda** am y rhesymau canlynol:

- Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu sgiliau dysgu, eu sgiliau cymdeithasol a'u sgiliau bywyd
- Mae disgyblion yn cael mynediad at ystod eang o brofiadau dysgu perthnasol sy'n cyd-fynd yn dda â'u hanghenion, eu diddordebau a'u galluoedd
- Ceir trefniadau hynod effeithiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion
- Mae gan staff ddisgwyliaid uchel o waith ac ymddygiad disgyblion
- Mae'r addysgu'n dda

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella'n **dda** am y rhesymau canlynol:

- Mae gan arweinwyr a rheolwyr ymrwymiad cryf i wella'r ysgol
- Ceir strwythur rheoli addas a llinellau atebolrwydd clir
- Mae gan yr ysgol bartneriaethau hynod effeithiol, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar les a deilliannau disgyblion
- Mae'r holl staff yn cael cyfleoedd datblygu proffesiynol o ansawdd da sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol

Argymhellion:

- A1 Sicrhau bod yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyson yn dda neu'n well
- A2 Gwella ansawdd cynlluniau addysg unigol i sicrhau bod targedau'n cyfateb yn fwy manwl ag anghenion disgyblion a nodir mewn datganiadau o anghenion addysgol arbennig

Tabl 14 – Canlyniadau meysydd arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Y Deri		
Maes Arolygu Estyn	Gradd	Pwyntiau Allweddol
Safonau	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Y Deri ystod eang o anghenion, sy'n cynnwys awtistiaeth, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd. • Mae disgyblion ag anghenion corfforol a meddygol cymhleth yn gwneud cynnydd cryf ar draws yr ysgol. Maent yn defnyddio technoleg gynorthwyol yn fedrus i gyfleu eu hanghenion a'u dewisiadau personol. • Mae bron pob disgybl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu difrifol a chymedrol yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu sgiliau dysgu, eu sgiliau cymdeithasol a'u sgiliau bywyd. • Mae disgyblion sy'n fwy abl yn ennill ystod o gymwysterau lefel 1 a 2 mewn cyrsiau sy'n cyd-fynd yn dda â'u hanghenion a'u diddordebau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fe symudodd bron pob disgybl ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu ddarpariaeth gwasanaethau oedolion.

		<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'n briodol cymharu safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad ar y cyfan dros amser oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig y disgyblion.
Lles	Da	<ul style="list-style-type: none"> Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas am fwyta'n iach a manteision ymarfer corff. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth, yn cyfranogi'n rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol gan gynnwys dawns, syrffio a beicio. Maent yn datblygu eu sgiliau tîm yn effeithiol trwy chwaraeon megis boccia a rygbi tag. Mae disgyblion â symudiad cyfyngedig yn ymgysylltu'n dda ag ystod werthfawr o weithgareddau i wella'u cydsymudiad ac ymatebion corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni therapi dŵr, ffisiotherapi a therapi adlamu. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod gyda phwy y dylent siarad os oes ganddynt bryderon. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn o amgylch yr ysgol ac yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.
Profiadau dysgu	Da	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu perthnasol sy'n ateb gofynion ac anghenion bron pob disgybl yn dda. Mae opsiynau'r cwricwlwm yn yr ystod oedran 14-19 yn helaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ennill cymwysterau perthnasol a sgiliau seiliedig-ar-waith sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau cyfathrebu disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae technoleg gynorthwyol a'r dull integreiddiol o weithredu therapïau'n llwyddiannus iawn o ran rhoi i ddisgyblion y sgiliau y mae'u hangen arnynt i gael mynediad at ddysgu. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae trefniadau i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio'n hynod effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i wella sgiliau disgyblion mewn modd cynyddol... Mae darpariaeth ar gyfer TGCh yn gryfder arbennig. Mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth briodol i ddysgwyr ddysgu am ddatblygu cynaliadwy.
Addysgu	Da	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl staff yn Ysgol Y Deri yn sefydlu perthnasoedd anogol â disgyblion. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr am eu hanghenion a'u galluedd unigol. Ym mron pob gwersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gyfoes dda a disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn gwneud yn siŵr bod tasgau'n rhoi her addas. • Ar draws yr ysgol, mae lleiafrif o athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigonol yn ystod cyfnodau cofrestru boreol ac mewn gwersi. • Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddata asesu i fonitro a thracio cynnydd disgyblion yn eu dysgu ac o ran lles.
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr ysgol ystod briodol o bolisiau a gweithdrefnau i hybu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau addas i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion am fwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd trwy ystod eang o weithgareddau sy'n cysylltu'n dda â galluoedd a diddordebau disgyblion. • Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a gweithgareddau eraill. • Mae'r ysgol yn rhoi arweiniad a chymorth defnyddiol i ddisgyblion hŷn a'u rhieni ynghylch gyrfaedd, opsiynau addysg bellach a gwasanaethau eraill. • Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd cryf ag asiantaethau allanol, megis y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol ac elusennau lleol, sy'n rhoi cymorth a chynghor defnyddiol i staff mewn perthynas ag anghenion disgyblion unigol. • Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer adnabod a monitro anghenion ychwanegol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni ymyrryd arbenigol i ddatblygu hunan-fri disgyblion a gwella sgiliau cyfathrebu ac ymddygiad disgyblion. • Mae gan bob disgybl gynllun addysg unigol. Ar y cyfan, mae'r rhain yn nodi nodau hirdymor addas.
Yr amgylchedd dysgu	Rhagorol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr ysgol ethos hynod gadarnhaol a chynhwysol, sy'n helpu disgyblion i ddatblygu hunan-fri a dod yn fwy hyderus. Mae disgyblion yn cael y cyfle i gyfranogi ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ni waeth beth fo cymhlethdod eu hanghenion, galluoedd a chefnidiroedd amrywiol. • Mae'r ysgol fodern, bwrpasol yn darparu amgylchedd dysgu eithriadol sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn eithriadol o dda. Er enghraifft, mae ganddi bwl therapi, ystod eang o ystafelloedd synhwyraidd a champfa sydd wedi'i hofferu'n dda i ddiwallu anghenion therapiwtig disgyblion. Caiff y ddarpariaeth ei gwella ymhellach trwy argaeledd ystafell aml-gyfyngol, stiwdio deledu, fflat sgiliau bywyd a chegin broffesiynol. Mae'r adnoddau hyn yn hynod effeithiol o ran datblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd disgyblion. • Mae'r ysgol yn rhannu'r safle gydag ysgol uwchradd brif ffrwd a cheir trefniadau effeithiol i ddisgyblion â phob math o anghenion a galluoedd gael mynediad at gyfleusterau chwaraeon helaeth yn yr awyr agored gan gynnwys cae pob tywydd a wal ddringo. Mae'r ysgol yn defnyddio'i thir ei hun yn effeithiol i

		<p>gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion a chefnogi eu lles. Er enghraifft, ceir ardaloedd chwarae sy'n hygyrch o ystafelloedd dosbarth ar y llawr gwaelod ac sy'n cynnwys offer chwarae cwbl hygyrch, ardal anifeiliaid bychain lle mae disgyblion yn gofalu am foch cwta ac ieir a gwelyau blodau uchel i dyfu llysiau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ardaloedd addysgu'n cynnwys ystod helaeth o adnoddau digidol o ansawdd da sy'n darparu profiadau dysgu rhyngweithiol ysgogol ar gyfer disgyblion o bob gallu.
Arweinyddiaeth	Rhagorol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi gweithio'n fedrus ac yn ddychmygus i ddod â thair ysgol wahanol iawn at ei gilydd trwy broses uno. • Mae uwch arweinwyr yn dangos y capasiti i roi newid ar waith a'i reoli'n effeithiol. • Mae systemau i ddadansoddi gwybodaeth am berfformiad disgyblion yn soffistigedig ac yn hynod effeithiol. • Ceir trefniadau effeithiol i ddosbarthu cyfleoedd arwain i staff ar bob lefel. Er enghraifft, mae sesiynau hyfforddi 'Micro' a 'Charlam' yn galluogi staff i rannu arfer effeithiol gyda chydweithwyr mewn sesiynau datblygiad proffesiynol treiddiol sydd â ffocws pendant. • Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn llwyddiannus.
Gwella ansawdd	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr ysgol systemau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer hunanwerthuso sy'n cynnwys defnydd buddiol o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn dadansoddi bron pob agwedd ar ei gwaith a bod ganddi ddealltwriaeth dda iawn am ei chryfderau a meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. • Ceir llawer o gyfleoedd i staff gyfrannu at waith hunanwerthuso, er enghraifft i wella darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn ystyried barn disgyblion ac yn gweithredu'n briodol ar y rhain. • Mae'r prosesau gwella ysgol yn hynod effeithiol ac yn cynnwys yr holl staff yn llwyddiannus.
Gweithio mewn partneriaeth	Rhagorol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau strategol o ansawdd da gydag ysgolion eraill, y bwrdd iechyd a'r gymuned leol sy'n cael effaith bwysig ar ddeilliannau a lles disgyblion. • Mae'r trefniadau cydweithio neilltuol gyda'r bwrdd iechyd yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at ystod eang o wasanaethau arbenigol sy'n hynod effeithiol o ran diwallu anghenion iechyd, cyfathrebu a chorfforol disgyblion. • Mae defnyddio adnoddau a rennir gyda'r ysgol brif ffrwd gyfagos yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad at ystod ehangach o gyfleusterau. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion hŷn sy'n fwy abl yn cael mynediad at addysgu a chyfleusterau arbenigol yn yr ysgol brif ffrwd. Mae hyn wedi gwella'u

		<p>deilliannau mewn pynciau a ddarperir ar draws y ddau leoliad. Mae athrawon yn cael budd o gymedroli gwaith ar y cyd gyda chydweithwyr yn yr ysgol brif ffrwd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae staff yn Ysgol Y Deri yn rhoi cyngor a hyfforddiant arbenigol gwerthfawr i gydweithwyr mewn ysgolion eraill. • Ceir cysylltiadau cryf ag ystod eang o fusnesau lleol. Mae'r rhain yn rhoi profiadau dysgu ysgogol oddi ar y safle i ddisgyblion 14-19 oed ac yn helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol disgyblion a'u dealltwriaeth am fyd gwaith.
Rheoli adnoddau	Da	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr ysgol ystod dda iawn o athrawon a staff cymorth profiadol, arbenigol, a leolir yn effeithiol. • Mae'r holl staff yn cael mynediad at ystod helaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u cynllunio'n dda, i wella'u sgiliau a'u gwybodaeth. O ganlyniad, maent yn cefnogi anghenion unigol disgyblion yn dda. • Mae athrawon yn cael amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol. Mae hyn yn eu galluogi i fod yn gwbl effeithiol o ran darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ysgogol a diddorol ar gyfer disgyblion. • Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau o ansawdd da y mae staff yn eu defnyddio'n fedrus i gefnogi a gwella dysgu a lles yr holl ddisgyblion.

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categorreddio ysgolion

Mae'r adroddiad categorreddio ar gyfer Ysgol Y Deri i'w gael yma:

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/School/>

Tabl 15 – Categoriâu Safonau a Gwella Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Y Deri			
Dyddiad Cyhoeddi	Gradd Safonau	Gallu i Wella	Categori ar y Cyfan
Ionawr 2020	Amherthnasol	A	Gwyrdd
Ionawr 2019	Amherthnasol	A	Gwyrdd
Ionawr 2018	Amherthnasol	A	Gwyrdd
Ionawr 2017	Amherthnasol	A	Gwyrdd

Adroddiad Categorreddio Cenedlaethol Ionawr 2020

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn yr adroddiad categorreddio cenedlaethol

Table 16 – National Categorisation School Report for Ysgol Y Deri (2019-2020)

Maes Arolygu	Pwyntiau Allweddol
Safonau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae safonau yn yr ysgol yn dda iawn ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da neu ragorol mewn perthynas â'u manau cychwyn isel ac anghenion dysgu ychwanegol. • Mewn dosbarthiadau cynradd, mae 82% o ddisgyblion naill ai'n cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo. Mewn rhifedd, mae 84% o ddisgyblion naill ai'n cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo. Mewn TGCh, mae perfformiad yn erbyn targedau ychydig yn is gyda 70% yn cyrraedd eu targedau neu'n mynd y tu hwnt iddynt. Mewn ABCh, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn perfformio'n dda iawn gydag 85% yn cyrraedd eu targedau neu'n mynd y tu hwnt iddynt. Y canlyniadau hyn yw'r cryfaf dros y tair blynedd ddiwethaf. • Yn CA3, mae dros 80% o ddisgyblion yn cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo mewn llythrennedd. Mewn rhifedd, nid yw perfformiad disgyblion mor gryf gyda 70% yn cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo. Mae 81% o ddisgyblion yn cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo mewn TGCh ac mae ychydig o dan 70% yn cyrraedd eu targed mewn ABCh. • Yn CA4, mae'r adroddiad yn nodi bod cynnydd yn sylweddol wannach na'r flwyddyn flaenorol. Mewn llythrennedd, mae llai na 40% yn cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo. Mewn rhifedd, mae'r adroddiad yn nodi bod llai na 10% yn cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo. Mae oddeutu 40% yn cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo mewn TGCh, ac mewn ABCh mae 60% yn cyrraedd eu targed neu'n mynd y tu hwnt iddo. Mae'r ysgol wedi adolygu'r wybodaeth hon yn llawn ac wedi triongli data â mesurau sicrhau ansawdd eraill megis arsylwi ar wersi, craffu ar waith ac IRIS Connect. Caiff yr anghysondeb ei egluro fel gwall cofnodi y mae'r ysgol wedi'i dargedu ar gyfer craffu pellach trwy gydol blwyddyn academaidd 2019-20. • Mae perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 5 yn gryf iawn, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion (90%+) yn cyrraedd eu targedau neu'n mynd y tu hwnt iddynt mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh ac ABCh. • Mae lles disgyblion yn cael ei asesu ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio'r Raddfa Leuven hynod effeithiol neu fersiwn wedi'i haddasu o'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb. Gan ddefnyddio'r graddfeydd hyn, cofnodir lefelau lles sy'n amrywio rhwng lefel gyfartalog a lefel dda iawn ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Defnyddir data o'r asesiadau hyn yn effeithiol i ddisgyblion gael mynediad at ystod eang o ymyriadau. Mae'r ymyriadau hyn yn rhai o ansawdd da iawn ac yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. O ganlyniad, aseswyd fod gan 8.3% yn fwy o ddisgyblion lefelau da iawn o les ac nad oes gan unrhyw ddisgyblion lefelau lles gwael. • Mae'r holl ddisgyblion yn gadael yr ysgol ag ystod o gymwysterau priodol. Mae'r dull achredu hwn sy'n unigolledig ac wedi'i deilwra'n un o gryfderau'r ysgol ac mae ethos yr ysgol o ran anelu'n uchel yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n gallu eu gwneud yn cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster sy'n her, e.e. TGAU. • Mae'r ysgol yn cydlynu digwyddiadau 'opsiynau' ac 'ymadawyr' effeithiol blynyddol sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion a rhieni'n meddu ar wybodaeth gyfoes. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn sicrhau cyrchfannau priodol ac

	<p>o'r 25 o ymadawyr – fe aeth un i addysg brif ffrwd, cofrestrodd 17 ar gyfer hyfforddiant cyflogadwyedd a sgiliau bywyd, aeth pump ymlaen i goleg preswyl arbenigol ac aeth dau i mewn i wasanaethau dydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes gwahaniaethau o gwbl rhwng perfformiadau dysgwyr mewn unrhyw grŵp agored i niwed. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched. • Mae lefelau presenoldeb, sef 89.45%, yn dda ac ychydig bach uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion arbennig. • Bu wyth gwaharddiad am gyfnod penodol; mae pump ohonynt yn ymwneud ag un disgybl ac mae'r tri arall yn ymwneud â dau ddisgybl. Mae ystod fawr o ymyriadau therapiwtig wedi cael eu sefydlu. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer ymdrin ag anawsterau sy'n gysylltiedig â thrawma'n datblygu ar gyfradd neilltuol. • Ac eithrio'r tri disgybl uchod, ychydig o achosion o Ymyriad Corfforol Cyfyngol (RPI) a fu. • Mae ymddygiad yn gyson yn dda. Ceir tîm ymddygiad effeithiol sy'n cynorthwyo staff i reoli ymddygiad heriol iawn. Ceir ystod o ymyriadau therapiwtig sy'n rhoi cyngor rhagweithiol ar gyfer ymddygiad. O ganlyniad, mae'r amgylchedd yn ddigynnwrf ac yn drefnus.
Gallu i Wella	<ul style="list-style-type: none"> • Bernir bod ansawdd arweinyddiaeth a rheoli'n rhagorol. Mae tîm arwain mawr yn yr ysgol sy'n gweithredu'n effeithiol iawn. Maent yn mwynhau'r rhyddid a roddir iddynt ond yn llwyr ddeall y strwythurau atebolrwydd sy'n tanategu eu harweinyddiaeth. • Ceir gweledigaeth glir a rennir gan y mwyafrif o randdeiliaid yr ysgol ac sy'n treiddio trwy fywyd yr ysgol. Caiff y weledigaeth ei chyfleu gan yr is-bennawd 'Diversity in Harmony' ac mae gan yr ysgol ymrwymiad clir i ddathlu disgyblion sydd â galluoedd gwahanol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn anelu'n uchel ac yn ymgeisio i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu nifer o ymweliadau addysgol cwbl gynhwysol, er enghraifft sgïo ac Ymddiriedolaeth Calvert. • Mae gweledigaeth yr ysgol yn canolbwyntio'n glir ar anghenion lles disgyblion fel ei phrif flaenoriaeth. Mae'r ysgol yn arwain y ffordd gyda'i darpariaeth ar gyfer profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac o ran deall trawma. Mae'r ysgol yn cefnogi ysgolion prif ffrwd lleol gyda'r agenda hon. O fis Medi 2019, mae gwasanaeth ymddygiad yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau Allgymorth Awtistiaeth (staff sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Y Deri) wedi uno i greu Gwasanaeth Ymgysylltu. Mae'r gwasanaeth datblygol hwn yn cynnig cyngor ac arweiniad i ysgolion prif ffrwd ynghylch cefnogi disgyblion ag ystod o heriau o awtistiaeth i anawsterau sy'n gysylltiedig â thrawma. • Barnwyd fod yr uwch dîm arwain (UDA) yn rhagorol ar gyfer arweinyddiaeth strategol gan Estyn y crëwyd argraff fawr arnynt hefyd gan y gwaith a wnaed i ddod â'r tair ysgol at ei gilydd mor effeithiol. • Ceir cynllun strategol clir i gefnogi cynnydd tuag at weledigaeth yr ysgol. Er nad oedd y CGY ar gael yn y cyfarfod categoreiddio, mae i fod i gael ei gadarnhau gan y llywodraethwyr cyn hanner tymor. Fodd bynnag, mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr yn glir iawn ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n anelu'n uchel iawn ac yn canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

- Mae arweinwyr yn dangos gallu cryf iawn i gynllunio newid a'i roi ar waith a chynnal gwelliant yn llwyddiannus ym mron pob ffordd. Mae'r ysgol yn un o ysgogwyr allweddol rhaglen trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru ac mae wedi gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ysgolion partner, asiantaethau a rhanddeiliaid ehangach. Er enghraifft, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer therapïau megis Therapi Galwedigaethol yn neilltuol o dda.
- Mae'r UDA i gyd wedi bod yn rhan o ddatblygu mentrau cenedlaethol a lleol a'u rhoi ar waith. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn flaenllaw mewn datblygiadau yn y sector ysgolion arbennig.
- Mae'r broses hunanwerthuso'n cael ei hamserlennu, mae'n effeithiol, yn strategol, yn gywir, yn systematig ac wedi hen ennill ei phlwyf. Mae data ar amrywiaeth o ffurfiau'n cael ei ddefnyddio'n dda gan yr uwch arweinwyr i werthuso cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r cylch monitro, gwerthuso ac adolygu wedi'i driongli, yn cael ei ddeall yn dda ac yn cynnwys systemau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd gan gynnwys arsylwadau ffurfiol ar wersi, gwerthusiadau gan gymheiriaid a hunanwerthusiadau, craffu ar waith a defnyddio tracio trwy fideo. Mae gwybodaeth o'r prosesau hyn yn cael ei defnyddio'n dda i dargedu cymorth a sicrhau effaith fawr.
- Mae prosesau i dracio cynnydd disgyblion, adnabod anghenion a rhoi cymorth yn gadarn ac yn effeithiol ym mhob achos. Mae'r wybodaeth hon yn goleuo trafodaethau proffesiynol gyda'r UDA a'r staff cyfan er mwyn gwella arfer, ac addasu targedau a'r ddarpariaeth er mwyn gwella deilliannau disgyblion. Mae'r ysgol wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r prosesau hyn i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'w disgyblion.
- Mae cymedroli wedi gwreiddio'n gadarn yn fewnol ac mae'r ysgol yn cyfranogi yn yr holl ymarferion cymedroli allanol.
- Mae ystod o ymyriadau hynod effeithiol ar waith ar draws yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys 'The Launch Pad', ymyriadau prosesu synhwyraidd a grwpiau ymddygiad cadarnhaol/lles. Mae effaith yr ymyriadau hyn yn cael ei monitro a'i gwerthuso'n dda. Mae'r ysgol yn pryderu ychydig y gallai cyfyngiadau cyllidebol gyfyngu ar gwmpas yr ymyriadau hyn yn y dyfodol
- Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn, yn ddibynadwy ac yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithlon gan yr UDA. Mae'r rhan fwyaf o staff yn ymgysylltu'n llawn ag adnabod y nodau a'r blaenoriaethau ar gyfer eu dysgu proffesiynol hwy eu hunain. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn aros gyfuwch â gwybodaeth a bod eu haddysgu'n gwella'n barhaus. Mae systemau megis IRIS Connect a Continua yn cael eu defnyddio'n dda i roi anogaeth ar gyfer hunanfyfrio. Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n dda ag ysgolion arbennig eraill i ehangu'r rhwydwaith a dylanwadu ar y systemau hyn ar draws y sector.
- Mae absenoldeb staff wedi cael ei ostwng ac mae staff yn dysgu sut i gydweithio yn dilyn uno'r tair ysgol arbennig.
- Ceir strwythurau da ar gyfer deialog reolaidd a rhannu gwybodaeth ar draws yr ysgol. Er enghraifft, cynhelir sesiynau dysgu proffesiynol mewn arddull 'gwib garu' yn rheolaidd i staff alw heibio ynddynt. Mae nifer y cyfranogwyr yn uchel a'r effaith yn llwyddiannus yn ôl y gwerthusiad.
- Ceir dull a gydgyssylltir yn dda ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n defnyddio ystod o ffynonellau (gan gynnwys TGCh) yn dda. Mae dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n briodol ar les ac anghenion academaidd dysgwyr. Mae'r dull hwn, ar y cyd ag ethos cryf o her a chefnogaeth yn yr ysgol yn creu diwylliant lle mae staff yn dechrau herio eu barn a'u harferion er mwyn gwella'n barhaus. O ganlyniad, mae'r ysgol yn anelu'n uchel iawn ar gyfer ei disgyblion.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r pennaeth ac uwch aelodau o staff yn ymrwymedig i ddatblygu'r ysgol gan ddefnyddio methodoleg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (SLO). Ceir diwylliant cryf o ymholi lle mae llawer o aelodau o staff yn teimlo'n ddiogel i gymryd risgiau gochelgar o ran y dysgu a'r addysgu. Mae'r ysgol yn cefnogi mentrau newydd yn dda ac mae uwch arweinwyr yn annog staff i anelu'n uchel. Er enghraifft, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer technoleg gynorthwyol yn eithriadol. • Mae gan yr ysgol bwyslais priodol a pharhaus ar wella ansawdd yr addysgu. Mae uwch athrawon yn defnyddio ystod o fesurau perfformiad i ddeall cryfderau a meysydd i'w gwella mewn perthynas ag addysgu. Er enghraifft, mae'r ysgol yn deall bod ymddeoliad nifer o ymarferwyr Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig hynod brofiadol yn golygu bod angen cynllun cadarn ar gyfer olyniaeth. • Mae'r UDA yn cwrdd yn rheolaidd â staff i drafod data perfformiad a phennu targedau ystyrlon ar gyfer gwella. Mae staff yn trafod yn rheolaidd gyda'r UDA a yw camau gweithredu wedi arwain at y deilliannau a ddymunir ac os nad ydynt, maent yn newid cwrs fel y bo angen. Barn yr ysgol yw bod yr addysgu o leiaf yn dda gyda llawer o enghreifftiau o arfer rhagorol. • Mae gan arweinwyr a staff ffocws diwrthdro ar godi safonau. Mae targedau'n adlewyrchu disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad yr holl ddisgyblion yn y dyfodol ac mae'r rhain yn cael eu cyrraedd yn gyson. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'n amlwg yn seiliedig ar hunanwerthuso/asesiadau cywir a pharhaus. • Mae arweinwyr yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gweithredoedd y sefydliadau'n gyson â'i werthoedd. Er enghraifft, fe wnaeth llawer o aelodau o'r UDA drefnu a ymweliad addysgol preswyl a chymryd rhan ynddo yn ddiweddar. • Mae arweinyddiaeth yn cael ei dosbarthu'n dda ac mae potensial yn cael ei feithrin trwy athroniaeth hyfforddi a mentora. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn hynod effeithiol ac mewn sefyllfa dda i reoli'r newid sylweddol sy'n wynebu ysgolion ar hyn o bryd. • Mae'r ysgol wedi'i harfogi'n dda i reoli newid ac mae ganddi hanes amlwg yn y maes hwn. Ceir cynlluniau cadarn i sicrhau parodrwydd ar gyfer ADY ac mae'r holl becynnau cymorth angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith yn dda. Mae'r ysgol wedi treialu'r Cynllun Datblygu Unigol newydd yn dda ac mae wedi rhoi adborth i Lywodraeth Cymru. Ceir strategaeth eglur ar gyfer ail-alinio'r cwricwlwm hefyd er bod yr ysgol wedi bod yn gweithio'n thematig am beth amser. Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cwricwlwm yn addysgu'r 'hyn sy'n bwysig'. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae aelodau o'r UDA yn datblygu fframwaith sgiliau bywyd arloesol. Fodd bynnag, byddai o fudd i'r ysgol weithio gyda staff i enghreifftio'r pedwar diben a sicrhau bod y meysydd hyn yn ganolog i holl weithrediadau'r ysgol. • Ceir polisi cynhwysfawr ar gyfer y cwricwlwm sydd wedi sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau addysgu. Mae gan bron pob aelod o staff ddealltwriaeth gyffredin am nodweddion addysgu rhagorol a da. • Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ysgolion eraill a phartneriaid eraill i wella'u gallu hwy eu hunain a gallu eraill i ddwyn gwelliant yn sylweddol. Yn fwy diweddar mae'r ysgol wedi cefnogi canolfan adnoddau cynradd ac wedi ei newid o fod yn un a oedd yn methu i fod yn un dda a gadarnhawyd gan arolygiad Estyn. Mae'r ysgol hefyd yn rhannu ei harbenigedd TGCh i gefnogi ysgolion eraill yn ei siwrne wella. • Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn am gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen iddi eu gwella ac maent yn hynod effeithiol o ran cefnogi a herio perfformiad yr ysgol. Mae gan yr ysgol gynlluniau effeithiol i ddatblygu'r
--	---

	soffistigedigrwydd y mae ar lywodraethwyr ei angen i gefnogi'r ysgol yn fwy cadarn trwy weithgareddau megis teithiau dysgu. Dylid cofnodi'r gwaith hwn yn ddiogel, ei ddadansoddi a gweithredu arno dros y flwyddyn nesaf.
Argymhellion	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i fireinio'r arlwy o ran y cwricwlwm mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru • Craffu ar berfformiad disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn nosbarthiadau CA4 • Parhau i gyflwyno hyfforddiant ysgolion sy'n deall trawma – ennill achrediad a lledaenu gwybodaeth • Parhau i ganolbwyntio'n ddi-ildio ar addysgeg trwy gysylltu ag ysgolion ar draws y sector • Cwblhau adolygiad o weithgareddau Monitro, Gwerthuso ac Adolygu – adolygiad llawn o'r effaith ar safonau ac yn erbyn tirwedd sy'n newid. • Ymgysylltu'n ffurfiol â'r fethodoleg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar gyfer newid a pharhau i lywio diwylliant o ymholi.